

Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy 2025/26



1. Crynodeb Gweithredol

Mae 2025/26 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy, sydd wedi cynnwys nifer o weithgareddau a digwyddiadau celf ac, yn ôl yr arfer, rydym ni'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi rhoi arian i ni. Mae hynny wedi ein helpu ni i barhau i gynnig gweithgareddau ymgysylltu, yn enwedig gan fod denu arian yn mynd yn anoddach wrth i ddarparwyr grantiau ymateb i bwysau economaidd.

Er mwyn cynyddu effaith, mae'r elusen wedi gweithio'n agos gyda Venue Cymru a Thîm Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae ein prosiectau ni wedi'u hariannu gan gymysgedd o roddion a grantiau, a'r prif feysydd gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon oedd:

- Cymerwch Ran 2026 yn Venue Cymru (Ionawr 2026)
- Python ar y Prom
- Cronfa Addysg Thomas Howell
- Canu ac Ioga / Lego
- Cronfa Grantiau Bach

Mae'n amserol, ac yn briodol, i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth barhaus i Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy.

Diolch yn fawr iawn am ein cefnogi ni dros y flwyddyn ddiwethaf. Edrychwn ymlaen at eich cefnogaeth dros y flwyddyn i ddod.



Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol.....	1
2.	Cymerwch Ran 2026	3
3.	Python ar y Prom	4
4.	Grant Cronfa Addysg Thomas Howell 2025	9
5.	Canu ac Ioga.....	10
6.	Caffi Lego	10
7.	Cronfa Grantiau Bach.....	11
8.	Rhoddion.....	12
9.	Cyfrifon 2025/26.....	12
10.	Diolchiadau	13

2. Cymerwch Ran 2026



17-18 January 2026
Venue Cymru,
Llandudno

159 workshops,
57 performances,
2 days,
1 building,
loads of fun!



Facilitators

62
fluent Welsh
speakers

21
Welsh language
learners



40
staff from BBC
Wales and S4C



49
Organisations






TAKE PART 2026

 @takePARTVC

 #takePARTVC

Ar 11 ac 12 Ionawr, dychwelodd yr ŵyl gelf, llenyddiaeth a gwyddoniaeth enfawr i Venue Cymru, wedi'i hariannu gan Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Cymerodd 10,000 o blant, pobl ifanc ac oedolion ran mewn 108 o weithdai, o greu modelau gydag Aardman Animation i ddosbarthiadau hyfforddiant Jedi, creu printiau canoloesol a defnyddio goleuadau theatr technegol. Daeth BBC Wales ac S4C â sioeau Rownd a Rownd, Stwnsh, Deian a Loli a Sioe Cyw, a bu i Noddwr Cymerwch Ran, darlunydd llyfrau Harry Potter, Jonny Duddle, arwain ei sesiynau tynnu lluniau hynod o boblogaidd.



Unwaith eto, rhoddodd Cymerwch Ran gyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau celf, gwyddoniaeth a llenyddol – gweithgareddau na fydden nhw efallai'n cael cyfle i gymryd rhan ynddynt fel arall.

3. Python ar y Prom

Cerflun Terry Jones: O stiwdio'r artist i'r dadorchuddiad terfynol

Yn dilyn ymateb syfrdanol gan gyfranwyr, cefnogwyr a phobl leol, cytunwyd ynghyd â chymorth gan deulu Terry a'r Pythons eu hunain, y dylid cynrychioli Terry Jones fel ei gymeriad enwog, yr Organydd Noeth.

Llwyddodd yr artist Nick Elphick i bortreadu Terry yn berffaith cyn creu desg Terry a'r organ eponymaidd, sydd wedi'u gorchuddio â nifer o gyfeiriadau at fywyd a gyrfa Terry, o'i straeon i blant a'i ddyddiau cynnar yn Rhydychen i'w gariad at Samuel Pepys, ac mae'r cyfan wedi'i gynnal gan goesau yn arddull swreal Monty Python.

Yna, bu Nick yn gweithio'n agos gyda Lost Foundry yn Axminster ar y broses o rannu ei fodel maint go iawn yn ddarnau llai, gan fowldio pob darn mewn cerameg a'u bwrw mewn metel tawdd, cyn eu weldio nhw i gyd yn ôl at ei gilydd i ail-greu ei ddyluniad mewn efydd.

Ymunodd Sally Jones, merch Terry, â Nick yn y ffowndri yn Nyfnaint i wyllo'r metel yn cael ei dywallt, ac aeth yn ôl yn ddiweddarach yn y broses pan oedd y gwaith efydd terfynol yn cael ei batineiddio. Tynnodd y



1 Nick Elphick - Cerflunydd (ar y dde). Llun gan Paul Cooper

ffotograffydd proffesiynol Paul Cooper luniau o'r broses gyfan, o stiwdio'r artist i'r ffowndri ac ymlaen i'r diwrnod dadorchuddio, heb unrhyw gost i'r ymgyrch, gan ei fod yn hoff iawn o Monty Python a gwaith Nick. Cynhaliwyd arddangosfa o'r lluniau hyn yn Llyfrgell Bae Colwyn yn y cyfnod cyn y digwyddiad, a chawsant eu harddangos ar bosteri o amgylch canol y dref.

Dydd Sadwrn 25 Ebrill 2026 – y Digwyddiad Dadorchuddio

Nod y digwyddiad oedd dathlu Terry Jones ac annog pobl o Ogledd Cymru ac o bob cwr o'r byd i gael eu hysbrydoli i ddilyn eu taith greadigol eu hunain.

Cafwyd cyfraniad gan Ymddiriedaeth Celfyddydau Conwy a chyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Tref Bae Colwyn, ac o ganlyniad i hynny lansiwyd prynhawn o weithgareddau am hanner dydd.

Cydweithiodd Theatr Colwyn, Ymddiriedaeth Celfyddydau Conwy, Venue Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn agos â'i gilydd a bu i bob un ohonyn nhw gefnogi'r ymgyrch a'r digwyddiad â'u harbenigedd a'u hadnoddau sylweddol ar gyfer cynnal digwyddiadau

celfyddydol creadigol ar raddfa fawr. Yn bwysig iawn, rhoddodd y digwyddiad hwn gyfle hefyd i sicrhau bod yr holl weithgareddau a digwyddiadau yn cael eu cynnal gan weithwyr proffesiynol creadigol o Gymru.

Defnyddiwyd gyrfa amlochrog Terry fel ysbrydoliaeth, a datblygodd ein gweithwyr proffesiynol creadigol brofiadau unigryw i ymwelwyr ynghyd â rhaglenni/gweithgareddau penodol ar gyfer y diwrnod. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau estyn allan pwrpasol tebyg hefyd gan sawl un o'r grwpiau a oedd yn cymryd rhan, cyn y dadorchuddiad. Cynhaliwyd y rhain ag ysgolion cynradd lleol, grŵp cymunedol a grŵp byw â chymorth a oedd yn cymryd rhan.

Roedd y dadorchuddiad yn ddigwyddiad hynod o lwyddiannus, ac ymunodd tua 6,000 i 8,000 o ymwelwyr dros gyfnod o bedair awr. Roedd tua 50% o'r unigolion a oedd yn bresennol yn dod o du allan i'r ardal leol, ac mae'r niferoedd hefyd yn cynnwys ymwelwyr o bob rhan o'r byd, yn cynnwys Ewrop, Japan, UDA a Brasil.

Agorodd Dilwyn, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy, y sioe drwy arwain Côr Alaw wrth iddyn nhw ganu clasuron Cymreig traddodiadol poblogaidd, yn arddull a gwisg gwbl addas i Monty Python.



2 Dilwyn Price, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy a Chôr-feistr, yn arwain Côr Alaw
Llun: Paul Cooper



3 Simon Holland Roberts - Y Rheolwraig
Image: Paul Cooper

Cyrhaeddodd unigolion sydd wrth eu bodd â Monty Python o bell hefyd mewn gwisgoedd Monty Python coeth a chlasurol. Roedd y Promenâd yn llawn sŵn pobl yn dyfynnu ymadroddion clasurol yn ogystal â sŵn enwog y cnau coco yn taro yn erbyn ei gilydd! Prif lwyfan y digwyddiad oedd y 'Spam Cafe', y cafodd ei ail-greu'n ofalus a'i redeg gan y grŵp lleol, Theatr Pigtown. Gwisgodd Simon Holland Roberts o theatr Pigtown fel Rheolwraig y 'Spam Cafe', ac fe gyflwynodd y siaradwyr gwadd yn ogystal â diddanu'r dorf ar yr un pryd mewn modd meistrolgar.

Roedd yn anrhydedd croesawu'r gwsteion arbennig – Syr Michael Palin, Terry Gilliam, Suzy Eddie Izzard, Carol Cleveland a Sara Sugarman.

Gwnaeth Suzy Eddie Izzard sydd wrth ei bodd â Monty Python gyfweld â Palin, Gilliam a Cleveland, a fu'n hel atgofion am eu hen ffrind Terry ac am greu cymaint o eiliadau eiconig ar y teledu ac mewn ffilmiau. Cafwyd hefyd ddarlenniadau teimladwy gan Sugarman a Libby Loughland o Magic Light Productions. Llun: Paul Cooper



4 Suzy Eddie Izzard yn cyfweld â Michael Palin, Terry Gilliam a Sara Sugarman - Llun: Paul Cooper

Cafwyd llawer o bobl frwdfrydig yn barod i gymryd rhan mewn Gemau Olympaidd gwirion, yn cynnwys Ras Cerddediad Gwirion a Rasys y *Gumbys*, yn ogystal ag ymladd â gwaywffyn mewn berfâu.



5 Cerddwyr Gwirion! Llun: Paul Cooper

ddiwrnod hyfryd, heulog a chynnes.

Roedd gan Lyfrgell Bae Colwyn ac Amgueddfa Llandudno stondinau hefyd, ac yr oedd ganddyn nhw lyfrau ac arteffactau Rhufeinig i ymwelwyr eu harchwilio. Cynhaliodd Magic Light Productions weithdai adrodd straeon a gwneud pypedau, daeth Cymdeithas Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn â thram gwreiddiol, creodd yr artist Dave Sharp baentiad cyflym byw o Terry a daeth Sol Cinema â'u sinema solar mewn carafán hen ffasiwn i ddangos ffilmiau o ddyddiau cynnar Terry. Drwy gydol y dydd, bu'r artist graffiti lleol Andy Birch yn paentio sied â lluniau o yrfa hir Terry arni, hyd nes i'r sied gael ei chwythu i fyny i ddatgelu'r cerflun.



6 Suzy, Sarah, Sally, Terry a Michael yn chwythu'r sied i fyny Llun: Paul Cooper

Roedd y digwyddiad yn uchafbwynt i ymgyrch i gasglu arian gan unigolion ledled y byd sy'n hoff o Monty Python er mwyn codi'r cerflun fel rhodd i bobl Bae Colwyn. Mae codi arian yn y modd hwn wedi codi proffil y cerflun ar draws y byd, ac mae'n denu twristiaid yn barod, wrth i gynnydd gael ei nodi yn nifer yr ymwelwyr sy'n dod draw yn arbennig i weld y cerflun. Yn ôl adborth gan fusnesau lleol, mae pobl yn teithio i Fae Colwyn er mwyn ymweld â'r cerflun a gwario arian yn lleol.

Er mwyn sicrhau bod y cerflun a Bae Colwyn yn parhau i gael sylw cyhoeddus ar ôl y datguddiad, mae'r cerflun wedi ymddangos yn:

- Prom a Mwy - diwrnod i'r teulu ar y Prom sy'n denu 10-15,000 o ymwelwyr

- Dangosiad o *Monty Python's Life of Brian* yn Theatr Colwyn, ynghyd â sesiwn holi ac ateb wedi'i chynnal gan Rob Shelly o ITV, ynghyd â Sally a Nick.
- Mae digwyddiad wedi'i gynllunio yn Nhŷ'r Cyffredin yn y dyfodol gyda chefnogaeth yr AS Gill German.



7 Edmygu Ffurf!

Lluniau: Paul Cooper

4. Grant Cronfa Addysg Thomas Howell 2025

Straeon o'r Archif

Cafwyd grant addysg o £5,000 drwy gronfa Thomas Howell a ganiataodd i Shirley Williams, Swyddog Cyfuno Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gynnal gweithdai **Straeon o'r Archif** mewn ysgolion ar hyd a lled y sir. Mae Archifau Conwy yn cynnwys miloedd o eitemau gan gynnwys dogfennau, mapiau a ffotograffau sy'n ymwneud â'r sir gyfan. Nod 'Straeon o'r Archif' yw estyn allan i ysgolion i dynnu sylw at straeon treftadaeth o'r Sir sy'n rhan o Gasgliad yr Archif, drwy ddefnyddio storiwr proffesiynol i gynnal sesiynau mewn ysgolion.

Y nod yw parhau i ddarparu sesiynau adrodd straeon treftadaeth dwyieithog i ysgolion Cyfuno yng Nghonwy, yn seiliedig ar themâu sy'n cyd-fynd â'u cynlluniau cwricwlwm eu hunain. Mae'r rhain yn cael eu darparu yn yr ysgolion eu hunain er mwyn osgoi costau hyfforddwr drud. Bydd y sesiynau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar straeon am ddyddiau ysgol Fictoraidd, Trosedd a Chosb, Swffragetaid, Y Bonedd a'u Staff, Stori Teganau Conwy, stori Mynach a bywyd ym Mhrydain yn ystod y Rhyfel. Mae'r rhain wedi bod yn hynod o boblogaidd yn dilyn y rownd ddiwethaf o gyllid a gawsom ni.

Eleni, cymerodd tua 500 o blant ledled y Sir ran yn y sesiynau.



Stori Teganau Conwy -
cyflwynwyd i 75 o ddisgyblion yn Ysgol Bro Gwydir



**Straeon yr
Ail Ryfel Byd
Stories**



Cyflwynwyd i 162 o
blant o -

Ysgol Ffordd Dyffryn,
Ysgol Bro Cernyw,
Ysgol Bro Aled
Ysgol Glan Morfa,
Ysgol Pencae

- Cafodd **Straeon y Rhyfel Byd Cyntaf** eu cyflwyno i 129 o ddisgyblion o Ysgol Elfod
- Cafodd **Stori Arwyn y Mynach** ei chyflwyno i 105 o ddisgyblion o - Ysgol Cynfran, Ysgol Bendigaidd William Davies
- Cyflwynwyd **Stori Ysgolion Fictoraidd Conwy** i 28 o ddisgyblion o Ysgol Pencae

5. Canu ac loga

Cafodd Canu ac loga £800 ychwanegol o gyllid grant i gynnal sesiynau ychwanegol yn Venue Cymru yn dilyn llwyddiant y sesiynau a gynhaliwyd yn Theatr Colwyn.

Mae Canu ac loga yn weithgaredd cynhwysol sy'n cyfuno symudiadau ioga ysgafn â chanu dan arweiniad mewn modd unigryw. Mae integreiddio symudiad a llais yn annog ymwybyddiaeth gorfforol, gan helpu'r corff i ymlacio a hybu lles emosiynol.

Mae'r sesiynau hyn ar gael i bob aelod o'r gymuned, waeth beth yw eu hoedran, eu profiad neu eu gallu. Mae'r fformat croesawgar yn creu amgylchedd diogel a chefnogol lle gall cyfranogwyr gysylltu, magu hyder a mwynhau gyda'i gilydd.

Yn ogystal â'r manteision amlwg i iechyd corfforol a meddyliol, mae Canu ac loga yn hybu:

1. **Lles** – lleihau straen, gwella hwyliau, a chefnogi iechyd cyffredinol.
2. **Cynhwysiad cymdeithasol** – darparu gweithgareddau hygyrch sy'n lleihau unigedd.
3. **Cysylltiad cymunedol** – cynnig cyfleoedd i bobl gwrdd, ymgysylltu a meithrin perthnasoedd.

6. Caffi Lego

O ganlyniad i ba mor boblogaidd yw'r sesiynau, dechreuodd y stoc bresennol o Lego leihau ac yr oedd ôl traul arno. Roedd y grant gan Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy yn golygu bod modd prynu Lego newydd sbon er mwyn darparu ar gyfer mwy o blant a bodloni disgwyliadau meddyliau ifanc creadigol, gan barhau i gynnig profiad cadarnhaol a difyr i bawb.

Mae gweithgareddau sy'n seiliedig ar Lego yn cefnogi:

1. **Lles** – annog ymwybyddiaeth ofalgar, canolbwyntio a lleihau straen drwy chwarae creadigol.
2. **Cynhwysiad cymdeithasol** – dod â phlant a theuluoedd o gefndiroedd gwahanol at ei gilydd mewn un man.
3. **Hyder a sgiliau cyfathrebu** – hyrwyddo gwaith tîm.
4. **Cysylltiad cymunedol** – helpu teuluoedd i feithrin cyfeillgarwch a lleihau unigedd yn ystod y gwyliau.

Mae'r Caffi Lego yn sicrhau lle diogel, croesawgar a chynhwysol i blant a theuluoedd ddod at ei gilydd yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae cynnig cyfleoedd chwarae creadigol am ddim yn helpu i leihau rhwystrau ariannol ac yn sicrhau bod pob teulu yn gallu cymryd rhan.

7. Cronfa Grantiau Bach

Mae Sian Young, Swyddog Datblygu Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwasanaethau gweinyddol ar gyfer y cynllun grant hwn.

O ganlyniad i haelioni'r cyhoedd, rydym ni wedi gallu parhau â'n cronfa Grantiau Bach i gefnogi amrywiaeth o brosiectau'r celfyddydau creadigol yn ein cymunedau.

Eleni, dyfarnwyd grantiau i'r canlynol:

- **Cyngerdd Band Ukelele Betws-y-coed Mai 2026 –**

Digwyddiad â thema yn Neuadd Goffa Betws-y-coed, yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd.

Nod: cyflwyno pobl i'r ukelele a'u hannog i chwarae'r offeryn, a rhoi cyfleoedd i ddysgwyr fireinio eu sgiliau chwarae ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae rhai o'r aelodau'n rhan o grŵp canu Goldies, a oedd hefyd yn y digwyddiad.

- **Oriel Gelf Mostyn –** Archwilio'r Gymraeg drwy argraffu Riso gyda'r artist Anna Farrell.

Nod: archwilio ffyrdd o gryfhau'r defnydd a'r berchnogaeth o'r Gymraeg drwy ymgysylltu creadigol. Rhoddodd y gweithdy cyhoeddus le i'r gymuned leol gymryd rhan weithredol yn y sgwrs hon, gan feithrin cysylltiad dyfnach â'r iaith.

Mae cymryd rhan yn y gweithdy argraffu Riso yn cynnig profiad ymarferol o waith print, lle ceir dysgu sut i greu print Riso dau liw a chael cyflwyniad i egwyddorion teipograffeg a dylunio graffeg drwy ddatblygu ffurf llythyren bersonol ar gyfer print A3, a bydd hyn i gyd yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Castell Gwrych –** Marchnad Artisan ac adloniant.

Nod: arddangos dawnys fertigol yn eu ffair artisan. Bu i aelodau'r cwmni 'Hedydd' sef Lisa Spaul, Angharad Jones a Kseniia Fedorovych, ddangos dawnys fertigol ar ffurf tri arddangosiad ar waliau'r castell yn y Farchnad Artisan a gynhaliwyd ar 31 Awst 2025. Ymunodd Rosa Spaul sy'n aelod o'r grŵp ieuenctid, â nhw hefyd.

Roedd y gerddoriaeth wedi'i recordio ymlaen llaw gan Eve Goodman o Ogledd Cymru sy'n canu a chyfansoddi.

Gellir lawrlwytho ffurflenni cais yma [Grantiau Bach](#) | [Ymddiriedolaeth Celf Conwy](#) ac argymhellir yn gryf bod partion â diddordeb yn trafod eu cais cyn ei gyflwyno drwy ffonio Sian ar 01492 575572 neu anfon e-bost at celf@conwy.gov.uk.

8. Rhoddion

Rydym ni’n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi rhoi i’r elusen eleni. Cafwyd £9127.09 o incwm rhoddion cyffredinol a rhoddwyd £16140.58 i gronfeydd cyfyngedig. Ceir crynodeb ohono isod:

GENERAL DONATIONS	
General bucket collections /Donations	£2508.90
Annual CAT donations via Box Office	£6618.19
Sub Total	£9127.09
RESTRICTED DONATIONS	
Annual CAT donations via Box Office	£6618.19
take pART bucket collections	£85.83
Python on the Prom Project	£9436.56
Sub Total	£16140.58
TOTAL	£25267.67

Amcangyfrifir bod Cais Rhodd Cymorth ar gyfer y rhoddion a gafwyd yn 2025-2026 tua £1,311.49 ac mae wedi’i gynnwys yn y ffigyrau uchod. Mae’r hawliad ar gyfer 25/26 yn y broses o gael ei hawlio a’i gymeradwyo gan Gyllid a Thollau EF.

9. Cyfrifon 2025/26

Conwy Arts Trust 31/03/2026				RESTRICTED FUNDS												
Restricted Funds	Non Restricted	Totals		Creu	Ty Cerdd	Take pART	Small Arts Grant	Cloacaenog - Stories from Archives	Thomas Howell Education Fund	VC/TC Restricted	ACW Young Creatives	Create 2	Python on the Prom	Theatr Colwyn Seat Refurb.	Orme Project	Sea Changes
Bal b/f	145,188.68	19,773.50	164,962.17	747.58	1,725.00	5,916.10	850.00	1,900.00	-	23,339.82	0.00	29.62	106,783.35	300.00	-	-
Income	33,986.37	9,127.09	43,113.46	-	-	5,066.62	-	-	5,000.00	6,618.19	-	-	9,801.56	-	7,000.00	500.00
Expenditure	-105,705.65	-£ 5,032.12	-110,737.77	-	-	- 5,916.10	- 1,361.73	- 1,775.00	- 3,200.00	-	-	-	- 85,952.82	-	- 7,000.00	-500.00
Transfer between funds	1,000.00	-1,000.00	0.00	-	-	-	1,000.00	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Bal Avail.	74,469.40	22,868.46	97,337.86	747.58	1,725.00	5,066.62	488.27	125.00	1,800.00	29,958.01	0.00	29.62	30,632.09	300.00	-	- 74,469.40
Bank Bal - as Represented By :- at 31.03.26				Transfer from Non-restricted to Small Arts Grant												
24.25 Debtors				-												
24.25 Creditors				500.00												
25.26 Creditor invoices				1,789.73												
25.26 Sales income from VC				- 5,095.79												
25.26 Gift aid 25-26				- 1,311.49												
25.26 Donations				- 14,519.62												
25.26 Grant				-												
Year End Bal				-97,337.86												

ADOLYGIAD ARIANNOL

Yn y cyfnod dan sylw, cafodd yr Elusen incwm o **£43,113**. Roedd y rhan fwyaf o'r gwariant ar gyfer prosiect Cymerwch Ran, y Grant Celfyddydau Bach, prosiectau Straeon o'r Archif a phrosiect Python ar y Prom – sydd i gyd yn gronfeydd cyfyngedig. Y swm y cafodd ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn hon oedd **£164,962**. Daeth y gwariant yn ystod y flwyddyn ar brosiectau penodol i gyfanswm o **£110,73**.

10. Diolchiadau

Hoffai Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy ddiolch i'r gwirfoddolwyr sy'n Aelodau o'r Bwrdd am eu cefnogaeth barhaus. Yn 2025/26 gwasanaethodd y bobl ganlynol fel Aelodau o'r Bwrdd ar gyfer Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy: Dilwyn Price; Michael Tree; Don Milne; Sarah Ecob; Joann Rae; Kristen Gallagher; y Cyng. Gwenno Ellis; Gareth Leech a Helen Goddard. Lorraine Whalley oedd yn cymryd ein cofnodion (dim pleidlais) ac yr oedd Louise Scott Jones yn aelod dibleidlais a oedd yn gyfrifol am y Cyfrifon.

Diolch i'n Noddwr Rhys Meirion am ei gefnogaeth i'r elusen. Hoffem ni hefyd ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Venue Cymru am eu cymorth gweinyddol, ariannol a'u cefnogaeth i'r prosiect drwy gydol y flwyddyn, ac i'n Harchwiliwr Allanol, Sandra Forrest.

Yn olaf, diolch enfawr i bawb sydd wedi ein cefnogi ni â rhoddion ariannol, wedi gweithio gyda ni ar ein prosiectau neu fod yn un o'n nifer o gyfranogwyr gwych.

Llofnod:
Mr Dilwyn Price, Cadeirydd
Dyddiad: 24/08/2026

Llofnod:
Don Milne, Trysorydd